Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 52 | Pris i aelodau: £5.00 y flwyddyn
Pris i'r cyhoedd: £1.50 y rhifyn | Mai 1994

## DIOLCH

**Diolch yn fawr iawn i'r selogion a welodd eu ffordd yn glir i ymateb i'r gri am erthyglau i *Y Casglwr*. Mae'n dda cael ar ddeall hefyd fod yna nifer o aelodau eraill am ddanfon cyfraniadau pan ddaw cyfle. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i bwysleisio fod yna groeso i'ch cyfraniadau bob amser, yr wyf yn falch o dderbyn pob math o gyfraniadau boed hir neu fyr — yn wir yr wyf yn arbennig o awyddus i dderbyn pytiau blasus.**

**Diolch hefyd i'r criw bychan o aelodau a lwyddodd i fynychu'r Ysgol Undydd a Chyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar Fai 14eg. Cafwyd cyfarfodydd eithriadol o ddiddorol a gobeithir cyhoeddi braslun o'r ddau bapur a gyflwynwyd yn yr Ysgol Undydd yn *Y Casglwr* yn fuan. (Gol.)**

# YMHLITH YR ANIFEILIAID

## Raymond B. Davies yn pori ymhlith cyhoeddiadau yn ymwneud ag anifeiliaid

Amaethyddiaeth fu diwydiant pwysicaf Cymru erioed ac yn ystod canrifoedd o ffermio'r tir datblygodd ein hamaethwyr nifer o fridiau a ystyrir heddiw yn nodweddiadol Gymreig. Fel arfer, mae'r anifeiliaid hyn yn rhai caled a chadarn sydd yn medru ffynnu ar diroedd gwael a mynyddig y wlad.

Nid oes rhaid edrych ymhellach na chatalog Sioe Frenhinol Cymru i weld tystiolaeth o ddawn ac ymdrech bridwyr craff. Yno rhestrir cystadlaethau ar gyfer pedwar ar ddeg o wahanol fathau o ddefaid a darddodd o Gymru — rhai anghyffredin fel y Defaid Torddu a'r Defaid Balwen ymhlith rhai cyffredin megis Defaid Mynydd Cymreig. Cyffredin iawn hefyd yw'r Mochyn Cymreig ym myd ffermwyr moch Prydain Fawr ac wrth gwrs mae pawb yn gwybod am y Gwartheg Duon a'r Cobiau a'r Merlod Cymreig. Cynnyrch llai adnabyddus Cymru a welir ymhlith y cystadlaethau ffowls yn Llanelwedd yw'r ŵydd Brecon Buff a'r hwyaden fach sy'n ymfalchïo yn yr enw Welsh Harlequin.

Erbyn heddiw tueddwn i feddwl am gŵn fel anifeiliaid anwes ond ar ffermydd a thyddynnod Sir Benfro a Sir Aberteifi y magwyd y ddau fath o gorgi yn arbennig ar gyfer gyrru gwartheg ac er mwyn hela y crewyd cŵn megis Daeargi Sealyham, y Daeargi Cymreig (a fu mor llwyddiannus yn Sioe Cruft eleni) a'r Tarfgi Cymreig (Welsh Springer Spaniel).

Hawdd yw edmygu pob un o'r creaduriaid hyn ond annisgwyl braidd yw'r toreth o lenyddiaeth a gyhoeddwyd yn flynyddol sy'n ymwneud â hwynt. Dim ond y bridwyr a selogion y sioeau, ac efallai ambell i lyfrgellydd, sy'n ymwybodol o'r preiddlyfrau, cylchgronau, llyfrau poblogaidd, blwyddlyfrau, taflenni cyhoeddusrwydd, catalogau ac atodlenni y sioeau a chatalogau arwerthiannau. Yn ogystal ceir cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â gweinyddiaeth a rheolaeth yr amryw gymdeithasau bridiau — y rheolau, yr adroddiad blynyddol, y fantolen ariannol a meysydd cysylltiedig eraill.

Wrth gwrs, effemeral yw

*(Parhad ar dudalen 5)*




*Detholiad o gyhoeddiadau Cymreig yn ymwneud â chŵn.*